Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 14eg o Chwefror 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Gordon Kilby (Cadeirydd), y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer
Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Mr Roger Phillips (Clerc Tref)

Cof 266 / Chwef / 17 Datganiadau o Fuddiant Dim.

Cof 267 / Chwef / 17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/36702 Gwaith coed yn amodol ar Orchymyn Cadwraeth Coed T1 yn 47, Parc Pencrug.
Sylw: Dim gwrthwynebiad.

E/36703 Gwaith coed yn amodol ar Orchymyn Cadwraeth Coed T1 yn 49, Parc Pencrug.

E/36741 Dymchwel y balconi cefn presennol, gosod fframyn dur mwy llydan gyda llawr concrid (llawr gwaelod). Cadw strwythur presennol y to a'r fframyn cyfnod cynhaliol. Ychwanegu ystafell wydr â tho ar oledd, i greu ystafell o dan y balconi ym Mhenybryn, 25, Heol Cilgant.
Sylw: Dim gwrthwynebiad.

Cof 268 / Chwef / 18 Doedd dim Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

Cof 269 / Chwef / 18 Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio

1.Ynglŷn â Chais Cynllunio E/36422. Ymateb Ceri Davies, Swyddog Cynllunio, i ymholiad y Cyngor mewn perthynas ag arsylwi rheoliadau parcio yn y broses gynllunio. Dywedodd Mr Davies nad yw'n angenrheidiol bod lle parcio ar y safle, os yw'r adeilad yng Nghanol y Dref. Cytunwyd byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Adran Cynllunio, i ganfod p'un ai bod y rheoliadau presennol yn galw am ddau le parcio ar y safle.

Cof 270 / Chwef / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol
Roedd Mr Davies wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Adroddodd Mr Davies fod y brif giât i Barc Penlan wedi cael ei hatgyweirio. Hefyd, roedd Mr Hugh Gwynne wedi gwaredu mieri o'r ardal.

Cafodd yr amrywiol brosesau tendro ym Mharc Le Conquet eu hatgyfeirio i'r Pwyllgor Cyllid.

Cof 271 / Chwef / 18 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Mr Stuart Quick, Rheolwr Ardal CSG, mewn ymateb i ohebiaeth y Clerc. Dywedodd na ellid cwblhau unrhyw waith ar yr heol o Rodfa Dynevor i Barc Le Conquet, nes bod arian ychwanegol yn cael ei glustnodi o'r gyllideb Priffyrdd.
2. Roedd y Clerc wedi trefnu i gwrdd â'r Cwnstabl Arwel Davies, mewn perthynas â gohebiaeth a anfonwyd i Heddlu Dyfed Powys am bobl yn parcio'n anystyriol yn Llandeilo. Fodd bynnag, oherwydd nad oedd Cwnstabl Davies yn gallu mynychu, fe fyddai'r cyfarfod yn cael ei aildrefnu.
3. Cafodd gohebiaeth rhwng Adam Price a Ken Skates, a anfonwyd ymlaen i'r Clerc, ei ohirio nes y cyfarfod nesaf oherwydd salwch y Clerc.

Cof 272 / Chwef /18 Gohebiaeth

1. Ymgynghoriad Masnachfraint Great Western, 13eg o Chwefror. Derbyniwyd yr hysbysiad yn rhy hwyr.
2. Helen Lawrence, ynglŷn â pherth sy'n gordyfu ar eiddo cyfagos ar Heol y Garreg Las. Byddai'r Clerc yn ateb i gynnig cyngor.
3. Robin Simms, copi o lythyr a anfonwyd i Ken Skates mewn perthynas â'r Ffordd Osgoi. Nodwyd.
4. Ffermwyr Ifanc Sir Gâr, gwahoddiad i'r Maer i fynychu'r rali flynyddol. Nodwyd.

Cof 273 / Chwef / 18 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Wella Cludiant yn Llandeilo

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gan Jacobs, rhwng 2yh a 7yh, yn y Neuadd Ddinesig ar y 13eg o Chwefror 2018. Roedd cynrychiolwyr o'r Cynulliad Cymreig yn bresennol. Dywedwyd nad oes yna bellach lwybr cytunedig na ffafriedig ar gyfer ffordd osgoi bosib. Pwrpas y fforwm cyhoeddus oedd edrych ar y posibiliadau i gyd, ac fe fydd Jacobs yn crynhoi'r ymatebion i gyd ac yn adrodd i LlCC. Bydd rhestr fer o'r llwybrau posib yn cael ei pharatoi, ac yna fe fydd ymchwiliad cyhoeddus yn dilyn. Mynegodd y Cynghorwyr bryder am lefel y dryswch ym meddyliau pobl wedi'r digwyddiad.

Cof 274 / Chwef / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35yh.